

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL

(MEMORANDWM RHIF 2)

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (“LCM”) hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (“y Bil”) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Medi 2022, a gosodwyd LCM yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd.
3. Cyflwynwyd 15 o welliannau gan Lywodraeth y DU¹ i'r Bil ar 16 Tachwedd 2022, i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, ac mae'r LCM hwn yn eu hystyried. Mae gwelliannau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd i'w gweld yn: [Retained EU Law \(Revocation and Reform\) Bill publications - Parliamentary Bills - UK Parliament](#). Daeth y cyfnod Pwyllgor i ben ar 29 Tachwedd. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus ac a gyhoeddwyd ar 29 Tachwedd, i'w weld yn: [Retained EU Law \(Revocation and Reform\) Bill \(parliament.uk\)](#)
4. Ysgrifennais at y Llywydd ar 30 Tachwedd i amlinellu nad oedd digon o amser wedi bod i egluro goblygiadau'r newidiadau hyn yn y Bil ar gyfer datganoli, ac yn ehangach, gan na wnaeth Llywodraeth y DU yn rhannu cynnwys gwelliannau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth cyn eu cyflwyno, ac na fyddai'n bosibl gosod LCM atodol o fewn y cyfnod arferol o bythefnos. Yn fy llythyr hefyd, nodais y byddem yn aros am gasgliad cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin i gasglu unrhyw welliannau pellach a gyflwynwyd neu y cytunwyd arnynt. Nid oedd unrhyw welliannau o'r fath.

Amcan(ion) Polisi

5. Disgrifiwyd amcan polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer cyfraith yr UE a ddargedwir (“REUL”) yn ei dogfen Benefits of Brexit ym mis Ionawr 2022, yn amlinellu ‘Our intent is to amend, replace, or repeal all the retained EU law that is not right for the UK’².

Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

¹ Cyfnod Pwyllgor: Dydd Mercher 16 Tachwedd 2022 – Gwelliannau a gyflwynwyd: [retained_rm_pbc_1116.pdf \(parliament.uk\)](#)

² [The Benefits of Brexit: How the UK is taking advantage of leaving the EU \(publishing.service.gov.uk\)](#)

7. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn cwmpasu'r canlynol:

- Diddymu (machlud) neu gymhathu REUL erbyn diwedd 2023.
- Diddymu'r egwyddor o oruchafiaeth cyfraith yr UE o gyfraith y DU erbyn diwedd 2023.
- Hwyluso llysoedd domestig i wyro oddi wrth gyfraith achosion a ddargedwir
- Darparu mecanwaith i Swyddogion Cyfraith Llywodraethau'r DU a'r Llywodraethau Datganoledig ymyrryd mewn achosion ynglŷn â REUL, neu eu hatgyfeirio at lys apêl, lle bo'n berthnasol.
- Diddymu hawliau a rhwymedigaethau cyfraith yr UE sydd ag effaith uniongyrchol yng nghyfraith y DU erbyn diwedd 2023.
- Diddymu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yng nghyfraith y DU erbyn diwedd 2023.
- Sefydlu rheol flaenoriaeth newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir (RDEUL) gael ei dehongli a'i chymhwyso'n gyson â deddfwriaeth ddomestig.
- Israddio statws RDEUL at ddiben ei diwygio'n haws.
- Creu cyfres o bwerau sy'n caniatáu i REUL gael ei dirymu neu ei disodli, ei hailddatgan neu ei diweddarau a'i dileu neu ei diwygio i leihau beichiau.

8. Mae'r Bil yn gwneud newidiadau i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("EUWA"), sy'n ddeddfiad gwarchoddedig o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae cymalau amrywiol o fewn y Bil (fel yr amlinellir isod) yn addasu'r darpariaethau presennol o fewn EUWA, ac o'r herwydd yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Newidiadau i'r Bil ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Cyntaf yr oedd angen cydsyniad y Senedd ar ei gyfer

9. Mae'r tabl yn atodiad 1 yn disgrifio gwelliannau'r llywodraeth ac yn ystyried eu heffaith. Mae gwelliannau yn addasu cymalau 1, 7, 12, 13, 14, 22 ac Atodlen 3 o'r Bil. Ystyriwyd y rhain i gyd yn 'ddarpariaeth berthnasol' ac o fewn cwmpas SO 29 at ddiben yr LCM a osodwyd ar 3 Tachwedd 2022. Rydym o'r farn bod angen LCM atodol mewn perthynas â'r gwelliannau i'r cymalau hynny ar y sail eu bod hefyd yn gwneud darpariaeth berthnasol.

10. Bernir bod yr holl welliannau yn dechnegol eu natur, ac eithrio gwelliant 7 y llywodraeth 7 i gymal 22, a ystyrir yn welliant mwy sylweddol, gan ei fod yn ehangu cwmpas y pŵer presennol o fewn cymal 22.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd

11. Nid yw safbwynt y Llywodraeth a nodir yn yr LCM a osodwyd ar 3 Tachwedd 2022 heb newid gan fod y Bil yn parhau i gyflwyno'r un pryderon cyfreithiol, cyfansoddiadol, polisi ac ymarferol. Mae'r pryderon hyn wedi'u trosglwyddo i Lywodraeth y DU, ac nid aed i'r afael â hwy mewn gwelliannau dilynol i'r Bil.

12. Ar y sail nad yw Llywodraeth y DU wedi mynd i'r afael ag unrhyw un o'r pryderon (a amlinellir yn ein LCM) ni fyddwn yn gallu argymhell i'r Senedd ei bod yn rhoi cydsyniad i'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.

Goblygiadau ariannol

13. Nid yw'n glir ar wyneb y Bil a fydd goblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru neu i'r Senedd, yn deillio o'r pwerau dan y Bil.

Casgliad

14. Fel y nodwyd uchod, mae'r gwelliannau i gymalau 1, 7, 12, 13, 14, 22 ac Atodlen 3 o'r Bil yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd datganoledig y Senedd ac felly, mae angen cydsyniad y Senedd. Fodd bynnag, o gofio ein pryderon am y Bil, nad yw'r gwelliannau yn mynd i'r afael â hwy, ni fyddwn mewn sefyllfa i argymhell bod cydsyniad yn cael ei roi i'r manylion a gynhwysir yn y Bil, nac i ddarpariaethau eraill y Bil, fel y'u nodir yn yr LCM gwreiddiol.

Mick Antoniw AS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

21 Rhagfyr 2022

Atodiad 1 - gwelliannau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd ar 16 Tachwedd, ac y cytunwyd arnynt wedi hynny yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.

Rhif y Gwelliant ³	Cymal sy'n cael ei ddiwygio	Sylwadau
Llyw 2	Cymal 1(3) (Machlud is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir).	Gwelliant technegol. Nid yw Cymal 1(3) ond yn cyfeirio ar hyn o bryd at ddirymu offeryn (“an instrument”). Mae'r gwelliannau hyn hefyd yn darparu nad yw dirymu darpariaeth offeryn yn effeithio ar unrhyw welliant a wneir gan y ddarpariaeth i unrhyw ddeddfiad arall.
Llyw 3	Cymal 1(3) (Machlud is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir).	
Llyw 4	Cymal 1(6) (Machlud is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir).	Gwelliant technegol. Mae'r gwelliant hwn yn mewnosod is-adran newydd 1(6) i egluro mai effaith rheoliadau o dan is-adran (2) sy'n eithrio offeryn (neu ddarpariaeth offeryn) o'r machlud yw eithrio'r offeryn hwnnw (neu'r ddarpariaeth honno) gan ei fod yn dal mewn bod yn union cyn y machlud.
Llyw 5	Cymal 7 (Rôl y llysoedd).	Gwelliant technegol. Mae'r diwygiadau hyn yn hepgor y diffiniad o swyddog cyfraith ddatganoledig (“devolved law officer”) o is-adran (5) o adran newydd 6C o EUWA ac yn hytrach yn sôn am bob swyddog cyfraith ddatganoledig yn is-adran (2) o'r adran honno.
Llyw 6	Cymal 7 (Rôl Llysoedd).	Bydd y gwelliannau hyn yn golygu bod gan y ddarpariaeth yr un effaith gan fod gan yr un ('same') swyddogion y gyfraith hawl o hyd i gael hysbysiad o achosion, ond yn hytrach mae'r derminoleg wedi newid

³ Mae'r gwelliannau wedi'u trefnu yn y drefn y cawsant eu trafod yn Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.

		i ddileu'r cyfeiriad at swyddog cyfraith ddatganoledig ('devolved law officer') ac mae pob un wedi'i restru'n unigol.
Llyw 8	Cymal 12(4) (Pŵer i ailddatgan cyfraith yr UE a ddargedwir).	Gwelliant technegol. Mae'r darpariaethau hyn yn diwygio cymalau 12(4) a 12(6) i
Llyw 9	Cymal 12(6) (Pŵer i ailddatgan cyfraith yr UE a ddargedwir).	ddiweddaru/dileu cyfeiriadau yn benodol at ddeddfwriaeth ('legislation') mewn perthynas ag ailddatganiad. Mae hyn yn golygu nad yw (i) effeithiau a gynhrychir yn rhinwedd cyfraith yr UE a ddargedwir y cyfeirir atynt yn is-adran (5) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw beth sy'n cael ei godio; a (ii) yn galluogi rheoliadau i gynhrychu, mewn perthynas ag unrhyw beth sy'n cael ei godio, effaith sy'n cyfateb i effaith a grybwyllir yn is-adran (4).
Llyw 10	Cymal 13(4) (Pŵer i ailddatgan cyfraith sydd wedi'i chymhathu neu i atgynhrychu hawliau pwerau, rhwymedigaethau etc yr EU a ddargedwir sydd wedi machlud).	Gwelliant technegol. Mae'r darpariaethau hyn yn adlewyrchu'r newidiadau i gymal 12 i ddiweddarau/dileu cyfeiriadau yn benodol at ddeddfwriaeth ('legislation') mewn perthynas ag ailddatganiad. Mae hyn yn golygu nad yw (i) effeithiau a gynhrychir yn rhinwedd cyfraith yr UE a ddargedwir y cyfeirir atynt yn is-adran (4) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw beth sy'n cael ei godio; a (ii) yn galluogi rheoliadau i gynhrychu, mewn perthynas ag unrhyw beth sy'n cael ei godio, effaith sy'n cyfateb i effaith a grybwyllir yn is-adran (4) a (7).
Llyw 11	Cymal 13(5) (Pŵer i ailddatgan cyfraith sydd wedi'i chymhathu neu i atgynhrychu hawliau pwerau, rhwymedigaethau etc yr EU a ddargedwir sydd wedi machlud).	
Llyw 12	Cymal 13(6) (Pŵer i ailddatgan cyfraith sydd wedi'i chymhathu neu i atgynhrychu hawliau pwerau,	

	rhwymedigaethau etc yr EU a ddargedwir sydd wedi machlud).	
Llyw 13	Cymal 13(7) (Pŵer i ailddatgan cyfraith sydd wedi'i chymhathu neu i atgynhyrchu hawliau pwerau, rhwymedigaethau etc yr EU a ddargedwir sydd wedi machlud).	
Llyw 14	Cymal 14 (Pwerau i ailddatgan neu atgynhyrchu: cyffredinol).	Gwelliant technegol. Mae is-adran (4) eisoes yn gosod cyfyngiadau ar y pwerau, gan atal ailddatganiad ehangach o'r egwyddor o oruchafiaeth, er y gellir atgynhyrchu ei effaith mewn perthynas ag ailddatganiad.
Llyw 15	Cymal 14 (Pwerau i ailddatgan neu atgynhyrchu: cyffredinol).	Mae'r gwelliannau hyn yn mewnosod cymalau 14(4A) a (4B) newydd (wedi'u hailrifo fel cymalau 14(5) a 14(6) yn y Bil diwygiedig wedi'i argraffu), i egluro na ellir defnyddio'r pwerau o dan gymalau 12 a 13 er mwyn codio neu atgynhyrchu'r egwyddor o oruchafiaeth cyfraith yr UE neu egwyddor gyffredinol a ddargedwir yng nghyfraith yr UE.
Llyw 7	Cymal 22(4) (Cychwyn, trosiannol ac arbedion).	Mae'r gwelliant hwn yn darparu y gellir gwneud darpariaeth drosiannol, darfodol neu arbed mewn cysylltiad ag unrhyw beth sydd wedi machlud o dan gymal 1 neu 3. Bydd y gwelliant hwn i gymal 22 yn golygu y bydd Gweinidog y Goron (yn unig) yn gallu gwneud darpariaeth drosiannol, darfodol neu arbed sy'n cael ei hystyried yn briodol mewn cysylltiad â "(b) the revocation of anything by section 1, or (c) anything

		<p>ceasing to be recognised or available in domestic law (and, accordingly, ceasing to be enforced, allowed or followed) as a result of section 3.”</p> <p>Gallai hyn gynnwys o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig.</p>
Llyw 1	Atodlen 3, Rhan 1, paragraff 2 (Darpariaeth gyfuno).	<p>Gwelliant technegol.</p> <p>Mae'r gwelliant hwn yn galluogi rheoliadau o dan y Bil hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft i gael eu chyfuno â rheoliadau nad ydynt yn ddarostyngedig i'r weithdrefn honno.</p> <p>Pan gyfunir darpariaethau o'r fath, y weithdrefn ddiodyn fydd y weithdrefn uwch, sef y weithdrefn gadarnhaol ddrafft.</p> <p>Mae'r gwelliant yn gwneud darpariaeth gyfatebol hefyd i'r deddfwrfeydd datganoledig.</p>